OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2431 (Cy.209)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*4 Hydref 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*6 Hydref 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Tachwedd 2010*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 29(3), 342(4), 347(2), 408, 537, 537A, 537B, 563 a 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac adrannau 92 a 138(7) a (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**), ac adrannau 30, 116A(5), 116D(2) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**3**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd yn ymddangos iddynt bod ymgynghori â hwy yn beth dymunol, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1996 p.56; trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 29(3), 342(4), 347(2), 408, 537, 537A, 563 a 569, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yn rhinwedd adran 150 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21) ac adran 211 o Deddf Addysg 2002 (p.32), ac sydd bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan adran 537B i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 180 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Diwygiwyd adran 29(3) gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32), Atodlen 30, paragraff 67 ac Atodlen 31. Diwygiwyd adran 408 gan Ddeddf Addysg 1997 (p.44), Atodlen 7, paragraff 30, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, paragraffau 57 a 106, Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), Atodlen 9, paragraff 57 a Deddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 46. Diwygiwyd adran 537 gan Ddeddf Addysg 1997, Atodlen 7, paragraff 37, gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraffau 57 a 152, a chan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, Atodlen 9, paragraff 60, a chan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 7, paragraff 6 ac Atodlen 22, Rhan 3. Mewnosodwyd adran 537A gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997, ac fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mewnosodwyd adran 537B gan adran 164 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40). Diwygiwyd adran 563 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 172(a) a (b).

(**2**) 1998 p.31. Amnewidiwyd adran 92 gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan adrannau 92 a 138 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 211 o Ddeddf Addysg 2002, ac yna i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) 2002 p.32. Mae adran 30 yn ailddeddfu'n sylweddol adran 42 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Diwygiwyd adran 30 gan adran 103(1)(a), (b) ac (c) o Ddeddf Addysg 2005 (p.18), a chan adran 2 o Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (mccc 3). Mewnosodwyd adran 116A gan adran 4 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1). Mewnosodwyd adran 116D gan adran 7 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Diwygiwyd adran 210 gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2) a Deddf Gofal Plant 2006, Atodlen 1, paragraff 16. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 30 a 210 o Ddeddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2010 ac maent yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994

2. Diwygir Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994(**4**) fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 2(1) mewnosoder ar ôl y diffiniad o "approval"—

> ""approved relevant qualification" is a relevant qualification within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997(**5**);"; a

(b) ym mharagraff 12(2)(c)(vi) a pharagraff 12(2)(c)(vii) o Atodlen 2, yn lle "external" rhodder "approved relevant".

Diwygio Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994

3. Diwygir Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994(**6**) fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 2(1) mewnosoder ar ôl y diffiniad o "the 1993 Act"—

> ""approved relevant qualification" is a relevant qualification within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997(**7**);";

(b) ym mharagraff 5 o Ran 3 o'r Atodlen, yn lle is-baragraff (2)(a) rhodder—

> "(a) a list of the approved relevant qualifications for which courses of study are provided for pupils of compulsory school age at the school;"; ac

(c) ym mharagraff 5(2)(c) o Ran 3 o'r Atodlen, yn lle "external" rhodder "approved relevant".

Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgol) (Cymru) 1999

4. Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgol) (Cymru) 1999(**8**) fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 3—

(i) yn lle'r diffiniad o "approved external qualification", rhodder—

> ""approved relevant qualification" is a relevant qualification within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997(**9**);";

(ii) hepgorer y diffiniadau o "AVCE" ac "ASVCE";

(iii) hepgorer y diffiniad o "GNVQ"; a

(iv) yn y diffiniad o "NQF", yn lle "qualifications accredited by" hyd at y diwedd rhodder "relevant qualifications within the meaning of section 30(5) of the Education Act

(**4**) O.S. 1994/651.
(**5**) 1997 p.44. Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 30 gan baragraff 15(6) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.
(**6**) O.S. 1994/652.
(**7**) 1997 p.44. Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 30 gan baragraff 15(6) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.
(**8**) O.S. 1999/1812. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2004/1736 (Cy.179) ac O.S. 2005/3239 (Cy.244).
(**9**) 1997 p.44. Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 30 gan baragraff 15(6) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

1997(**10**) which is awarded or authenticated by a body which is recognised by the Welsh Ministers under section 30(1)(e) of that Act in respect of the qualification and "NQF level" means the level or levels set out in the NQF in relation to a relevant qualification;"; a

(b) Yn Atodlen 4—

(i) ym mharagraff 5 o Ran 1 hepgorer is-baragraffau (c) a (d);

(ii) ym mharagraffau 7 a 10 o Ran 2, yn lle "external" rhodder "relevant";

(iii) ym mharagraff 16(a) o Ran 2 hepgorer "or AVCE"; a

(iv) ym mharagraff 16(b) o Ran 2 hepgorer "or ASVCE".

Diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001

5. Diwygir Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001(**11**) fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 2—

(i) yn lle'r diffiniad o "cymhwyster allanol a gymeradwywyd" rhodder—

""cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd" ("*approved relevant qualification*") yw cymhwyster perthnasol o fewn ystyr adran 30(5) o Ddeddf Addysg 1997(**12**);";

(ii) hepgorer y diffiniadau o "TAAU" a "TAAUG";

(iii) hepgorer y diffiniad o "GNVQ"; a

(iv) yn y diffiniad o "NQF", yn lle "cymwysterau achrededig gan" hyd at y diwedd rhodder "cymwysterau perthnasol o fewn ystyr adran 30(5) o Deddf Addysg 1997 a ddyfarnwyd neu a ddilyswyd gan gorff sy'n cael ei gydnabod gan Weinidogion Cymru o dan adran 30(1)(e) o'r Ddeddf honno o ran y cymhwyster ac ystyr "lefel NQF" yw'r lefel neu'r lefelau a osodir yn yr NQF o ran cymhwyster perthnasol;"; a

(b) yn Atodlen 2—

(i) ym mharagraffau 7 a 10 o Ran 2, yn lle "allanol" rhodder "perthnasol";

(ii) ym mharagraff 16(a) o Ran 2 hepgorer "neu TAAU"; a

(iii) ym mharagraff 16(b) o Ran 2 hepgorer "neu TAAUG".

Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004

6. Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004(**13**) fel a ganlyn—

(a) yn lle'r diffiniad o "cymhwyster allanol a gymeradwywyd" yn rheoliad 2(1) rhodder—

""cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd" ("*approved relevant qualification*") yw cymhwyster perthnasol o fewn ystyr adran 30(5) o Ddeddf Addysg 1997(**14**);";

(**10**) 1997 p.44. Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 30 gan baragraff 15(6) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

(**11**) O.S. 2001/1110 (Cy.54) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/1735 (Cy.178). Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**12**) 1997 p.44. Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 30 gan baragraff 15(6) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

(**13**) O.S. 2004/1025 (Cy.122) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/1396 (Cy.110). Mae offerynnau diwygio eraill hefyd ond nid ydynt yn berthnasol.

(**14**) 1997 p.44. Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 30 gan baragraff 15(6) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.